# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Mehefin 2021

Amser y cyfarfod: 12.30

# 7(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod aelodau o'r cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Newid yn yr Hinsawdd

(45 munud)

**Dogfennau ategol**

Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon 1990-2019 (Saesneg yn unig)

## 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Chwaraeon

(60 munud)

**NDM7712** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y twf a'r diddordeb mewn timau chwaraeon Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

2. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar gyflawniadau chwaraeon diweddar Cymru drwy weithio gyda Llywodraeth y DU i ddenu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru, gan gydnabod manteision sylweddol digwyddiadau o'r fath i economi Cymru ac adfywio cymunedau lleol.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ragoriaeth mewn chwaraeon, a hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon i wella lles meddyliol a chorfforol pobl drwy:

a) sefydlu cronfa ar gyfer talent o Gymru ym maes chwaraeon i gefnogi athletwyr talentog o Gymru i lwyddo ar lwyfan y byd;

b) creu cronfa bownsio yn ôl ar gyfer chwaraeon cymunedol i helpu clybiau cymunedol i ailadeiladu yn dilyn pandemig COVID-19;

c) gwella mynediad i gyfleusterau chwaraeon gan gynnwys sefydlu rhwydwaith mwy o gaeau synthetig 3G a 4G ledled Cymru;

d) cyflwyno rhwydwaith o lysgenhadon chwaraeon o Gymru i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill;

e) galluogi pobl ifanc yng Nghymru i gael mynediad am ddim i gampfeydd awdurdodau lleol a chanolfannau hamdden.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i:

a) hyrwyddo llwyddiannau ym maes chwaraeon yng Nghymru, hyrwyddo creadigrwydd a gallu ein pobl ifanc ym maes chwaraeon a galluogi ein diwydiant chwaraeon i gynnal ei enw da ar y llwyfan byd-eang;

b) buddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf, hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon a chefnogi athletwyr ifanc a dawnus a chlybiau llawr gwlad;

c) buddsoddi mewn cyfleusterau newydd fel caeau artiffisial 3G.

2. Yn cydnabod hanes llwyddiannus Llywodraeth Cymru o ddenu digwyddiadau uchel eu proffil yn y maes diwylliannol, busnes a chwaraeon i Gymru.

3. Yn ymuno â Llywodraeth Cymru wrth ddymuno pob lwc i dîm pêl-droed hŷn Cymru yng ngemau eraill y Pencampwriaethau Ewropeaidd.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2** Sian Gwenllian (Arfon)

Ym mhwynt 3(d), ar ôl 'eraill' ychwanegu 'yn enwedig ymhlith merched yn eu harddegau a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;'

**Gwelliant 3** Sian Gwenllian (Arfon)

Ym mhwynt 3, cynnwys is-bwyntiau newydd:

'sicrhau bod sefydliadau addysg ôl-16 yn darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden tra'n annog mynychwyr i gymryd rhan;

annog darlledwyr cyhoeddus i neilltuo canran uwch o amser darlledu i chwaraeon menywod;

gweithio gyda chlybiau a sefydliadau i leihau ymddygiad homoffobig a rhywiaethol a bod yn drawsgynhwysol;

ymchwilio i'r potensial i gael pwll nofio maint Olympaidd i wasanaethu gogledd Cymru.'

## 7 Dadl Plaid Cymru - Polisi tai

(60 munud)

**NDM7711** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu yn ddi-oed i fynd i'r afael â'r argyfwng tai.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ar ôl 'tai' mewnosoder:

'gan gynnwys cymryd camau i:

a) sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto;

b) adfer yr hawl i brynu yng Nghymru;

c) cael gwared ar y dreth trafodiadau tir ar gyfer prynwyr tro cyntaf;

d) gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae landlordiaid cofrestredig cyfrifol yn ei wneud i ddarparu llety addas i denantiaid; ac

e) cyflwyno deddfwriaeth ar ddiogelwch adeiladau.'

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer - Gohiriwyd tan ddydd Mercher 23 Mehefin 2021

**NDM7710** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Bargen deg i weithwyr.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Mehefin 2021

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 09/06/2021 i'w hateb ar 16/06/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ56606 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith cynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer datblygiadau tai yng Nghymru?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ56589 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog nodi ymagwedd Llywodraeth Cymru at bolisi cynllunio yng Nghymru?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

3 OQ56605 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd yng Ngogledd Cymru?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

4 OQ56611 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu deddf aer glân i Gymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

5 OQ56603 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r argymhellion a restrwyd yn ei adroddiad ar y llifogydd yn 2020?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

6 OQ56586 **(e)**

Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar reoli ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

7 OQ56578 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi landlordiaid cyfrifol?

8

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

OQ56577 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o achosion newid yn yr hinsawdd?

9

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

OQ56580 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer partïon i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 2021?

10

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

OQ56614 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru tuag at wireddu'r economi gylchol yn Islwyn?

11

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ56596 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod digon o dai fforddiadwy a chymdeithasol yn cael eu darparu ledled Cymru?

12

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

OQ56591 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar reoleiddio eiddo gosod tymor byr?

## GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

1

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ56597 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i awdurdodau lleol i gynorthwyo disgyblion sydd wedi colli amser addysgu wyneb yn wyneb oherwydd cyfyngiadau COVID-19?

2

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ56595 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth o addysg feddygol yng ngogledd Cymru?

3

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ56613 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysgu plant am newid yn yr hinsawdd mewn ysgolion?

**Hefin David** *Caerffili*

4 OQ56601 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi iechyd meddwl myfyrwyr yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

5 OQ56604 **(w)** Datganodd yr Aelod fuddiant

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar y trafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynglŷn â sicrhau'r hawl i lywodraethwyr ysgol gwblhau gwiriadau DBS ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol ag addewid ei ragflaenydd ar 17 Mawrth 2021?

**Ken Skates** *De Clwyd*

6 OQ56582 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi mewn addysg yn Ne Clwyd drwy raglen ysgolion yr 21ain ganrif?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

7 OQ56598 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ehangu cyfleoedd ar gyfer addysg awyr agored yn ystod tymor y Senedd hon?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

8 OQ56602 **(w)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod addysg cyfrwng Gymraeg yn hygyrch i bob plentyn a chymuned, yn arbennig yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ56612 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau hawl pob plentyn yng Nghymru i gael mynediad at addysg cyfrwng Gymraeg?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

10 OQ56590 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella safonau addysg ym Mreseli Sir Benfro?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

11 OQ56583 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi plant a phobl ifanc byddar mewn addysg yng Nghymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ56600 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen ysgolion yr 21ain ganrif yng Ngorllewin De Cymru?